



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur

Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas /  
MS Teams

Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd H Lawson (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

### Y Cyngorydd(wyr)

C M J Evans  
W G Thomas  
S E Keeton

### Y Cyngorydd(wyr)

E W Fitzgerald  
O G James  
M W Locke

### Y Cyngorydd(wyr)

J A Hale  
M H Jones  
B J Rowlands

### Hefyd yn Bresennol

David Hopkins

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad  
Corfforaethol

Paul Lewis

Athro Emeritus, Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe

### Swyddog(ion)

Stuart Davies  
Liz Jordan  
Paul Meller  
Carol Morgan  
Tom Price  
Mike Sweeney  
Mark Wade

Pennaeth Priffyrdd a Chludiant  
Swyddog Craffu  
Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol  
Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd  
Arweinydd Tîm - Rheoli Llygredd  
Arweinydd Tîm Priffyrdd a Chludiant  
Cyfarwyddwr Lleoedd

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Hefyd yn bresennol: Y Cyng. A H Stevens

---

#### 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Evans gysylltiad personol ag eitem 7.

#### 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

#### 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

#### 4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

#### 5 **Cadwraeth Natur - Diweddariadau am y Prosiect**

Rhoddodd Paul Meller, Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol y diweddaraf i'r panel a chadarnhaodd fod yr holl argymhellion o'r ymchwiliad craffu yn 2019 bellach wedi'u cwblhau neu'n rhan o brosiectau eraill.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y panel a yw tair swydd dros dro a ariennir drwy grantiau'n bodoli o hyd. Dywedwyd y derbyniwyd arian grant ar gyfer un flwyddyn yn unig. Ni fyddant yn parhau ar ôl mis Mehefin 2023 gan na ddaethpwyd o hyd i gyllid amgen.
- Gofynnodd y panel am gadarnhad o ble yn Abertawe y gosodwyd twnnel polythen ar gyfer tyfu cymunedol. [Yn dilyn y cyfarfod, cadarnhaodd swyddogion ei fod ar dir adeilad Cyfeillion Pobl Ifanc Anabl, Canolfan Gordon Moor yng Nghwmbwrla.]
- Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygu mapiau a phecyn ar gyfer prosiect 'Yn wyllt am eich ward' a hyd yma mae cynlluniau'n cael eu paratoi ar gyfer Townhill a Threforys. Clywyd bod y gwaith hwn yn gysylltiedig ag arian grant ac ni fydd adnoddau i barhau â hyn ar ôl mis Mehefin.
- Gofynnodd y panel beth yw'r blaenoriaethau rhwng nawr a mis Mehefin o ran gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r amser a'r arian sydd ar ôl ar gyfer y grant penodol hwn. Dywedodd swyddogion y bydd yr amser sydd ar ôl yn cael ei dreulio ar rai prosiectau parhaus yn Townhill a Threforys.
- Soniodd y panel fod Canolfan yr Amgylchedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i adnoddau er mwyn parhau ac mae gwir angen cefnogaeth arnynt.
- Gofynnodd Panel am gadarnhad fod cysylltiadau amgylcheddol wedi'u gwneud o fewn holl gyrff llywodraethu ysgolion i dderbyn cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau a mentrau bioamrywiaeth. Dywedwyd bod cysylltiadau da gyda rhai ysgolion ond nid pob ysgol. Cytunodd swyddogion i ddarparu dolen cadwraeth natur cyffredinol y gall ysgolion/llywodraethwyr ei ddefnyddio i gymryd rhan.

Camau Gweithredu:

- Darperir dolen i ysgolion/llywodraethwyr gael cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau a mentrau bioamrywiaeth ysgolion.

#### 6 **Rheoli Ansawdd Aer**

Roedd Tom Price, Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd yn bresennol i friffio'r panel. Roedd Paul Lewis, Athro Emeritws yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe hefyd yn bresennol.

Pwyntiau Trafod:

Cofnodion Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur (Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023)  
Parhad

- Oedi wrth gyflwyno Adroddiad Cynnydd Blynyddol i Lywodraeth Cymru. Caiff yr adroddiad am y tair blynedd diwethaf ei gyflwyno'n fuan ac yna caiff ei ddosbarthu i'r panel. Mae'r casgliadau drafft yn awgrymu bod y cyngor yn cydymffurfio ar hyn o bryd.
- Holodd y panel a oes unrhyw ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yng Nghymru ynghylch stofiau llosgi pren. Dywedwyd yng Nghymru ei fod yn rhan o Fil Aer Glân y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio arno. Roedd yr Athro Lewis Grŵp wedi cyflwyno Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Deddf Aer Glân i Aelodau'r Cynulliad yn ddiweddar a bydd yn rhannu'r cyflwyniad hwn â'r panel.
- Holodd y panel a fydd coelcerthi gardd yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf Aer Glân a dywedwyd bod pwerau presennol ar waith o dan ddarpariaethau niwsans statudol yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd. Mae llosgi yn yr awyr agored hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer y Ddeddf Aer Glân o ran mwy o reoleiddio. Ni fydd tân gwyllt yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Bil Aer Glân ond cafwyd ymgynghoriad ar wahân ynghylch tân gwyllt a chaiff hwn ei ddosbarthu i'r panel.
- Roedd y panel yn poeni am ansawdd aer o amgylch ysgolion a gofynnwyd a yw pob ysgol yn y Sir wedi cael ei harwchilio i sicrhau ei bod yn ddiogel. Dywedwyd bod y cyngor yn monitro ansawdd aer mewn rhai ysgolion ac ar hyn o bryd maent yn cydymffurfio ar draws Abertawe.
- Clywodd y panel fod LIC yn canolbwyntio ar ysgolion. Mae dod i gysylltiad â llygryddion aer y tu allan i ysgolion yn broblem ac mae angen mwy o dystiolaeth ar Gymru o ran lefelau dod i gysylltiad â'r rhain, a'r effeithiau ar iechyd plant.
- Dywedwyd wrth y panel fod Llwybrau i'r Ysgol yn gweithio gydag ysgolion gan ddarparu syniadau i atal rhieni rhag dod â phlant i'r ysgol. Mae angen ystyried llwybrau y mae plant yn eu cymryd i gyrraedd yr ysgol hefyd. Mae potensial ar gyfer gwneud cais yn y dyfodol am grant cymorth gan LIC i gynhyrchu cynnyrch ar gyfer llwybrau diogel i'r ysgol.
- Holodd y panel pa mor sensitif yw monitro deunydd gronynnol ar hyn o bryd a sut y gall ysgol fel Ystumllwynarth, sy'n adeilad concrit yn bennaf, gael ei 'gwyrrddio'. Bydd yr ymyriad gwybodus sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn yr ysgol yn profi crynodiad deunydd gronynnol ar y ffin ac yn yr iard a gosodir sgrîn werdd brawf ar hyd ardal y rheiliau. Mae'n dod yn llawer haws monitro PM2.5 ar synwryddion cost is fel y gallwn gael dosbarthiad eang o fonitrau.
- Trafododd y panel y farn y bydd y terfyn cyflymder o 20mya yn cynyddu'r potensial ar gyfer llygredd, yn debyg i dwmpathau arafu a cherbydau sy'n aros i droi i'r dde wrth oleuadau. Esboniwyd bod astudiaethau gwybodus ynghylch a oedd twmpathau arafu yn cynyddu neu'n lleihau llygredd yn aneglur a phrin yw'r dystiolaeth ar effaith terfynau cyflymder o 20mya ar ansawdd aer ond mae'r ychydig dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod gyrru ar 20mya yn gyffredinol yn arwain at welliant o ran PM2.5. Y peth allweddol yw bod llai o frecio a threulio teiars ar gyflymder o 20mya.
- Gofynnodd y panel ai priif achos cerbydau segur y tu allan i ysgolion yw rhieni'n gollwng plant ac a fyddai'n werth rhoi gwybodaeth i ysgolion i geisio addysgu rhieni i beidio â gwneud hyn. Clywyd bod deddfwriaeth ar gyfer troseddau segura llonydd, ac fe'i hysgrifennir mewn contractau bysus ar gyfer darpariaeth cludiant ysgol. Fodd bynnag, nid rhieni yn unig sy'n segura y tu allan i ysgolion.

Camau Gweithredu:

- Dosbarthu'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol i'r Panel ar ôl ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Dosbarthu cyflwyniad yr Athro Lewis i'r panel er gwybodaeth.
- Dosbarthu ymgynghoriad LIC ar dân gwyllt i'r panel.

## 7 Rheoli Perygl Llifogydd Lleol - Diweddariad Blynyddol

Rhoddodd Mike Sweeney, Arweinydd y Tîm Priffyrdd a Chludiant y diweddaraf i'r panel ar y mater hwn gan gynnwys rolau a dyletswyddau'r cyngor yn y maes hwn.

Pwyntiau Trafod:

- Ar hyn o bryd mae angen i'r cyngor gynhyrchu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a'i chyfuno â Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd.
- Gofynnodd y panel am ddiweddariad ar y cynnydd gydag achosion busnes ar gyfer cynlluniau a gefnogwyd gan grant Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd i ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd. Dywedwyd bod hyn yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau na'r disgwyl. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau cânt eu cymharu yn erbyn cynlluniau eraill yng Nghymru i benderfynu pa rai fydd yn cael eu datblygu yn seiliedig ar ffactorau yn erbyn risg i eiddo.
- Gofynnodd y panel a yw Abertawe mewn mwy o berygl o lifogydd na rhannau eraill o Gymru a chlywyd bod perygl llifogydd yn her i bob awdurdod lleol ledled Cymru ac mae angen cynllunio ymlaen llaw i liniaru yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Gofynnodd y panel am gynllun Blackpill, ac a oedd gwrthwynebiad Dŵr Cymru i'r cynllun wedi'i ddatrys. Mae trafodaethau gwybodus yn cael eu cynnal. Holodd y panel hefyd a oedd unrhyw waith wedi'i drefnu i gadw'r all-lifoedd yn glir yn Blackpill gan fod problem gyda thywod yn eu rhwystro. Clywyd bod yr adran yn ymwybodol bod yr all-lif yn tueddu i gael ei rwystro gan dywod, maen nhw wedi'i glirio yn y gorffennol a byddant yn gwneud hynny eto os oes angen.
- Soniodd y panel am dai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn ardal Penllergaer a gofynnwyd a fydd y mater rhyddhau rhagor o ddŵr wyneb i system sydd eisoes wedi wynebu heriau sylweddol yn cael ei archwilio'n rheolaidd yn y dyfodol. Esboniwyd pan fydd y cyngor yn asesu ceisiadau cynllunio ar ddatblygiadau mwy mae'n defnyddio safon genedlaethol fel nad ydynt yn achosi perygl llifogydd i'r isadeiledd presennol. Cadarnhawyd y byddant yn parhau i fonitro sefyllfa Penllergaer wrth symud ymlaen.
- Holodd y panel pa gynlluniau sydd ar waith i wella isadeiledd hŷn o ystyried yr heriau presennol. Cesglir asedau data gwybodus y mae'r adran yn credu ei fod yn bwysig i berygl llifogydd, archwilio'i gyflwr, ac os bydd digwyddiad llifogydd, ceisio deall yr hyn sydd wedi'i achosi, ac, os yw o ganlyniad i allu'r system, yna byddant yn cymryd camau pellach i ddod o hyd i ddatrysiad.
- Gofynnodd y panel am effaith gerddi sy'n cael eu gorchuddio â phalmant neu darmac, astro turf a dreifiau resin ar ddŵr ffo ac a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i'w wneud yn ofynnol i bobl gael caniatâd cynllunio i'w wneud. Clywyd nad oes deddfwriaeth i gefnogi ymyrraeth ar hyn o bryd. Ar ddatblygiadau newydd rydym yn ceisio cael y rhan fwyaf o ddŵr i fynd i'r ddaear os yw'n bosib. Os na, rhaid edrych ar wanhad a storio dŵr ar ddatblygiadau,

felly mae ffyrdd o leihau'r dŵr ffo ar gyfer ceisiadau newydd ond nid ar gyfer datblygiadau hŷn.

- Mae'r panel yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol gwybod beth yw pyllau gwanhau a chael rhywfaint o ddealltwriaeth o SUDS a'i effaith ar ddatblygiadau newydd. Trafodwyd pecyn hyfforddi ar SUDS sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau'r Panel ddod i gyfarfod amdano. Bydd trafodaethau pellach ar hyn yn cael eu cynnal y tu allan i'r cyfarfod.

Camau Gweithredu:

- Darparu gwybodaeth am hyfforddiant SUDS i Aelodau'r Panel.

## 8 Rhaglen Waith 2022-23

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am